Brig y Goeden

# TRIP TRAED MOCH


MICHAELA MORGAN



# TRIP TRAED MOCH

MICHAELA MORGAN

Lluniau gan Dee Shulman




DRAKE

# Pennod 1


Dyma Rhys.



Rhedodd Rhys yr holl ffordd i'r ysgol.
Roedd hi'n ddiwrnod braf.
A dweud y gwir roedd hi'n:




Teimlai Rhys wres y palmant drwy wadnau'i esgidiau. Teimlai'r awyr yn drwm ac yn boeth ar ei ben.






Aeth i lawr y stryd.

Aeth dros y bont.

Aeth rownd y gornel a ...

← dyna'r ysgol.

A dyna lle roedd y bws.
Yn barod i fynd â
dosbarth Rhys i'r parc
fferm.

A dyna'i athrawes, Miss Chwip. Cydiai yn y gofrestr gan ei marcio fel roedd pawb yn mynd ar y bws.





Gallai Rhys weld Barri a Gari, Sali a Siw, Dilip a Dafydd, Debjani hefyd a Sioned a rhai o'r lleill, gydag amryw o famau yn helpu ac un neu ddau o'r athrawon.

Oedd, roedd pawb yno ac roedden nhw'n mynd ar y bws.

"Hei! Arhoswch amdana i!" sgrechiodd Rhys.




Ond yna caeodd drysau'r  bws. Chwyrnodd yr injan yn uchel. Chlywodd neb Rhys ... ac i ffwrdd â'r bws.

# Pennod 2

Safodd Rhys ar y gornel. Roedd o eisiau crio. Beth ddylai o'i wneud?

Ddylai o fynd i mewn i'r ysgol?



Ddylai o fynd yn ôl adref?



Ddylai o aros ble roedd o?



Beth fedrai o'i wneud?

I bob golwg roedd Rhys ...




Oedden nhw?




Gwyliodd y bws yn
mynd draw oddi
wrtho.
Clywodd y plant
yn gweiddi
"HWREEEEEEE!"
Ac yna ...



... gwnaeth y bws ryw sŵn bach rhyfedd, pesychodd a...





Agorodd y drws a daeth y gyrrwr a Miss Chwip allan. Roedd golwg blin ar Miss Chwip.



"Peidiwch â phoeni," meddai'r gyrrwr. "Bydd yr hen fws yma'n iawn. Ddim wedi arfer efo'r gwres yma mae o. Rho i ddiferyn o ddŵr iddo. Wedyn bydd popeth yn iawn."



Bachodd Rhys ei gyfle. Saethodd ymlaen a neidio i mewn i'r bws.




Sodrodd ei hun ar y sedd flaen yn fodlon.




Roedd Miss Chwip yn dal i ochneidio a thwt-twtian wrth ddod yn ôl i mewn i'r bws. Eisteddodd i lawr ar ei sedd.



Yn anffodus, dyna'r union sedd roedd Rhys wedi sodro'i hun arni.





Miss Chwip mae'n debyg. Saethodd hi'n syth i fyny i'r awyr, trawodd ei phen ar y to, ac yna trodd i weld beth roedd hi wedi eistedd arno.




Gwridodd Rhys.

Symudodd i gefn y bws a gwasgodd i eistedd wrth ochr ei ffrindiau.




Chwyrnodd yr injan eto. Symudodd y bws a gwaeddodd pawb -





# Pennod 3




Archwiliodd Dilip a Dafydd eu bocsys cinio. Archwiliodd Rhys ei fwyd *yntau*. Roedd wedi cael ei wasgu braidd wrth i Miss Chwip eistedd arno.


Ceisiodd ei ddyrnu'n ôl i siâp.

Roedd y 


a'r 

braidd yn **f f l a t**

ac roedd y bisgedi'n



Yn ffodus, fedrai hyd yn oed Miss Chwip ddim gwasgu can cola yn hollol fflat.



Roedd Rhys yn chwys domen wedi'r holl redeg.


Roedd o angen diod. Plyciodd y fodrwy i agor y can.

Wyddoch chi beth sy'n digwydd i ddiodydd ffisiog os cân nhw eu hysgwyd i fyny ac i lawr?

Wyddoch chi beth sy'n digwydd i ddiodydd ffisiog os rhedwch chi o gwmpas efo nhw?

Wyddoch chi beth sy'n digwydd os agorwch chi gan o ddiod ffisiog sydd wedi cael ei ysgwyd i fyny ac i lawr ar fws?


Digwyddodd.




meddai'r can yn ddistaw fel petai'n ceisio dweud rhywbeth wrtho, ond daliodd Rhys ymlaen a ...





... ffrwydrodd y ddiod ffisiog.





Trodd Miss Chwip a gweld Rhys yn eistedd mewn pwll o cola, â chan gwag yn ei law.


Diferodd diferion olaf ei ddiod oddi ar flaen ei drwyn.
Ti wnaeth, Rhys?
Fedrai Rhys ddim gwadu.
Ochneidiodd Miss Chwip.
Mae popeth yn mynd o chwith iti heddiw, Rhys.
Eistedd wrth f'ochr i am weddill y daith.

Aeth Rhys i ben blaen y bws.
Rhythodd pawb arno.
Chwarddodd Sali.




Chwarddodd Gari fel roedd Rhys yn slwtshian heibio.





Teimlai Rhys yn boethach fyth.
Teimlai'n fwy chwyslyd fyth.
Teimlai'n fwy sychedig fyth.
A rŵan doedd ganddo ddim diod ar ôl.



# Pennod 4

Roedd hi’n glòs ar y bws.




Roedd cefnau coesau Rhys yn glynu ar y sedd, ond er hynny, eisteddodd yn llonydd a distaw wrth ochr Miss Chwip. Dechreuodd Sali ganu.

Ymunodd pawb, heblaw Gari.
Roedd o’n brysur yn bwyta.
Roedd o wedi llyncu:







cyn i Miss Chwip
sylwi arno.





Fyddai Gari byth yn cyffwrdd ei frechdanau. Byddai'n eu ffeirio am greision rhywun arall.

Roedd Sali a'i chriw yn canu:




Ond wedi iddyn nhw gyrraedd fod y babi eisiau nyrs, stopion nhw.

Meddai Sioned,



“Dyma ni yng nghefn gwlad,” meddai Miss Chwip.




Ond cyn bo hir cytunai pawb bron â Sioned.







Ond aeth y bws yn ei flaen, ac yn ei flaen ...

# Pennod 5

O'r diwedd cyrhaeddon nhw




Gwgodd Miss Chwip ar bawb.



Allan â phawb a rhedeg o gwmpas.

Carlamodd Dafydd
i'r toiledau.




Brysiodd Sali i weld
yr ŵyn.




Ond roedd Rhys wedi gweld
rhywbeth mwy diddorol o lawer.

Fan




Rhuthrodd
ati a sefyll
mewn ciw

hir,

hir,


hir

iawn.

O'r diwedd cyrhaeddodd Rhys y pen blaen ond gwthiodd Gari o'i flaen.




Doedd Rhys ddim eisiau i Gari wthio i mewn. A doedd Rhys ddim eisiau ffeirio'i greision. Aeth yn dipyn bach o gwffas a ...




... gwylltiodd y dyn hufen-iâ.






Ac felly roedd Rhys braidd yn hwyr


... a braidd yn flêr


a doedd o ddim



wedi plesio Miss Chwip.


Cymerodd Miss Chwip wynt mawr.



# Pennod 6

Aeth pawb yn nes ac edrych ar Mr Twmffat. Daeth amryw o ddefaid a geifr yno ac edrych ar y plant.




"Ydi pawb yn gwrando?" meddai Mr Twmffat. Nodiodd pawb, heblaw Rhys.

Llyfodd Rhys ei lolipop. Lolipop oer. Lolipop ffislyd. Lolipop oren. Doedd o ddim yn plesio Miss Chwip.

"Gwranda'n astud," meddai hi.




Edrychodd yn gas ar Rhys wrth ddweud hynny.



Felly safodd Rhys mor llonydd a thawel ag y medrai o. Gwrandawodd yn astud iawn a daliodd ei lolipop y tu cefn iddo.

Ond er iddo wneud ei orau glas fedrai o ddim sefyll yn llonydd â rhywun yn

stwffio

ac yn gwthio

y tu cefn iddo.









Gwnaeth Rhys ei orau, ond fedrai o ddim cadw'n hollol dawel pan deimlai rywbeth gwlyb rhyfedd yn cosi ei law.




Gwnaeth Rhys ei orau glas, ond fedrai o ddim cadw'n hollol lonydd fel y teimlai rywbeth yn cosi ei ddwylo fwy a mwy.




A fedrai o ddim peidio â chwerthin pan welodd Gari a Sali yn chwerthin hefyd.




Arhosodd Rhys gyhyd ag y medrai ond methodd beidio â chymryd llyfiad sydyn o'i lolipop pan nad oedd neb yn edrych.

Yn anffodus, methodd beidio â gweiddi'n uchel





pan welodd ...

...bren lolipop.



Dyna'r cyfan o'i lolipop oedd ar ôl.




Nid wedi toddi mae o, Miss -
Yr afr yna sydd wedi ei fwyta!
Llyfodd gafr fechan ei gwefusau.
Symudodd tuag at y pren lolipop. Roedd hi eisiau bwyta'r pren hefyd!
Shiwiodd Mr Twmffat hi i ffwrdd.
DOS O'MA!


Safodd Rhys yn syllu ar ei bren lolipop.
Y math o bren â jôc arno oedd o, ond chododd honno ddim ar ei galon.
Edrychai mor ddigalon fel roedd gan Miss Chwip hyd yn oed biti drosto.
Prynwn ni un arall iti - Ble mae'r fan hufen-iâ yna?




"Dim ots, Rhys," meddai Dafydd.



Ond roedd ots gan Rhys. Ots mawr.

# Pennod 7

"Gwena!" meddai Dafydd. "Cei di ddarllen y jôc ar dy bren inni."

Ochneidiodd Rhys a gwneud fel roedd o'n dweud.




Gwyddai'r lleill yr ateb ac roedden nhw'n gwybod mwy o jôcs am anifeiliaid.



Sut mae hwyaden heb drwyn yn ogleuo?
Yn sobor!
Pam mae gan wartheg gyrn?
Am nad ydi eu clychau'n gweithio!
Pa gar y mae dafad yn ei yrru?
Mini Meeeeeetro!
Mm!
Mmmm!
Be sy'n wyrdd efo coesau blewog?
Wn i ddim ...
Wn innau ddim chwaith - ond mae 'na un newydd fynd i lawr dy wddw di!




Meddyliodd Rhys am jôc newydd. Doedd hi ddim yn jôc am anifeiliaid, ond roedd hi'n jôc dda.




Felly roedden nhw'n cael hwyl nes y dywedodd Sioned ...



# Pennod 8

Meddai Miss Chwip, "Amser ichi lenwi'ch holiaduron."




Roedd Rhys yn benderfynol o wneud yn dda.

Felly er bod Gari yn cadw reiat,




gweithiodd Rhys yn galed ar ei holiadur.

Hyd yn oed pan redodd dafad ar ôl Sali ...




gweithiodd Rhys yn galed ar ei holiadur.

A hyd yn oed pan geisiodd gafr gnoi ei gareiau,




gweithiodd Rhys yn galed ar ei holiadur.

Roedd o wedi llenwi'r bylchau
i gyd, wedi ateb y cwestiynau
i gyd ac wedi tynnu llun
eithaf da o hwyaden.



Felly roedd yn hen dro i'w bapur ...




faeddu tipyn a thorri tipyn.

A doedd hynny ddim yn plesio Miss Chwip  o gwbl.




Yna, meddai hi, "Yn ôl i'r bws, bawb. Neu byddwn yn hwyr yn cyrraedd gartref."

# Pennod 9

Roedd y bws yn boethach nag erioed. Roedd  wedi bod yn sefyll yn yr haul drwy'r dydd.




gwaeddodd Rhys wrth eistedd i lawr ar y sedd boeth.


Tra oedd pawb arall yn canu neu'n chwarae 'Be wela i'n cychwyn efo ...', roedd Rhys yn gwylio i edrych welai o'r fan hufen-iâ.



Ond ateb Miss Chwip oedd, "Na chawn wir! Mae pawb yn boeth ac wedi blino ac eisiau mynd adref."

Doedd neb wedi blino mwy na Rhys. Doedd neb yn boethach chwaith. Ac yn sicr doedd neb yn fwy sychedig. Ond ymlaen yr aethon nhw, nes dechreuodd y bws ...






Ac yna stopiodd.




"Nage," eglurodd y gyrrwr. "Mae'r *injan* wedi gor-dwymo am ei bod hi'n ddiwrnod mor boeth. Bydd raid imi nôl dŵr. Cerdda i i garej. Arhoswch chi yma yn y bws. Ddylwn i ddim bod fawr mwy na rhyw awr ..."



Griddfannodd y plant.




Griddfannodd y mamau.




Griddfannodd Miss Chwip hyd yn oed.




Yna ... "Mae gen i syniad," meddai Rhys.




# Pennod 10




Rhoddodd Miss Chwip ganiatâd i Rhys fynd â'r gyrrwr yn ôl at y fan hufen-iâ.

Tywynnai'r haul yn syth ar ffenestri'r bws. Ochneidiodd Miss Chwip. Ochneidiodd pawb.

Arhosodd hi a phawb yn y






Ac yna ...




... daeth y fan hufen-iâ dros y bryn.
“Diolch i’r drefn,” meddai’r mamau.
“Diolch i Rhys,” meddai Miss Chwip.


“Estynna i’r dŵr yna ichi,” meddai’r dyn hufen-iâ.

“Pethau pwysicaf yn gyntaf,” meddai Miss Chwip. “Dwi isio prynu lolipops oer, hyfryd i bawb. Rydych chi i gyd yn haeddu un ...”



# Pennod 11

Felly ar ddiwedd y dydd cyrhaeddodd pawb gartref yn ddiogel a doedd neb yn hwyr  - diolch i Rhys. A chyfansoddodd Miss Chwip a ffrindiau Rhys i gyd gân i ddiolch iddo.




Do! Ces i ateb!
Es heb stop ...
Ond y peth gorau oedd
y LOLIPOP!


IEEEEEE!

# *Am yr awdur*



Dyma'r ail stori imi ei hysgrifennu am Rhys, gyda lluniau gan Dee Shulman.

I blasty yr aethom ni ar fy nhrip ysgol cyntaf i. Buon ni ar y bws am hydoedd, ond anfonwyd ni adref ar frys y munud y cyrhaeddon ni, oherwydd inni gasglu blodau o'r gerddi.

I waith carthion yr aethon ni ar yr ail drip. Bu'n bwrw glaw drwy'r dydd. Felly roeddwn wrth fy modd yn ysgrifennu stori am drip ysgol gyda diwedd hapus. Mwynheais i sgwennu am Rhys eto.

**Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 12:**

**Pecyn A**
*Sami Sgrap* gan Carolyn Bear
*Robin Woods a'i Ddynion Llon* gan Michaela Morgan
*Boris y Bochdew* gan Pippa Goodhart
*Esgidiau Glas* gan Angela Bull
*Y Datgelwr Celwyddau* gan Susan Gates
*Trip Traed Moch* gan Michaela Morgan

**Pecyn B**
*Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy* gan Angela Bull
*Cranwen Grachaidd* gan Pippa Goodhart
*Pasia'r Bêl, Tad-cu* gan Debbie White
*Tipyn o Boendod* gan Michaela Morgan
*Shelley Holmes Ditectif Di-ail* gan Michaela Morgan
*Dyma Drwbwl* gan Tessa Krailing

**Pecyn C**
*Ffasiwn Steil!* gan Michaela Morgan
*Lwc Luc* gan Paul Shipton
*Ffoniwch 999!* gan Sylvia Moody

# TRIP TRAED MOCH

Mae pethau'n mynd yn draed moch ar drip ysgol ...
Ond pwy sy'n cael syniad da?
Rhys wrth gwrs!



Brig y Goeden

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 12

ISBN 0-86174-484-5

DRAKE

ISBN 0-86174-484-5

9 780861 744848